**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/L/LG/05532-19 OCR SI

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Ionawr 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffïoedd Iechyd Planhigion ac ati) (Cymru) 2020)**

Yn unol ag adran 11A(4) Deddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10, para 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y daw'r Offeryn Statudol (OS) hwn i rym lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Amgaeir Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau hyn er eich gwybodaeth.

Daeth y Rheolaethau Swyddogol (Rheoliad (UE) 2017/625) ("Rheoliad y Cyngor") ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill i rym ar draws yr UE ar 14 Rhagfyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2019. Mae'r Rheoliad yn rhan o becyn o Reolau Clyfrach yr UE ar gyfer Bwyd Mwy Diogel (SRSF) ac mae'n gyfraith Ewropeaidd sy'n uniongyrchol gymwys. Mae gofyniadau cyfreithiol manwl y rheolaethau swyddogol wedi'u gosod felly yn Rheoliad y Cyngor ac mae Rheoliadau Gweinidogion Cymru yn darparu ar gyfer mesurau gorfodi domestig megis penodi cyrff gorfodi ac awdurdodau cymwys, ac i adfer costau, cyfnewid gwybodaeth, ac ar gyfer archwiliadau o dan Reoliad y Cyngor. Maent hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i nifer o offerynnau statudol eraill.

Bu oedi gyda drafftio'r Offeryn Statudol oherwydd bod rhannau pwysig ohono yn dibynnu ar statws y Deyrnas Unedig, o ran a oedd yn Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar y dyddiad y byddai Rheoliad y Cyngor yn dod i rym (14 Rhagfyr 2019). Ni chafwyd unrhyw sicrwydd ynghylch hyn gan Lywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd tan yn agos iawn at 31 Hydref. Hefyd, mae Rheoliad y Cyngor yn gymhleth iawn ac mae 28 o atodiadau o ddeddfwriaeth drydyddol sy'n pennu agweddau manwl pwysig ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill. Cafodd y gwaith o ddrafftio Rheoliad Gweinidogion Cymru ei gwblhau cyn gynted â phosib, a'r eitem olaf o ddeddfwriaeth drydyddol a wnaethpwyd o dan Reoliad y Cyngor wedi'i gwblhau ar 12 Rhagfyr 2019.

O ganlyniad, bu oedi rhwng y dyddiad yr oedd Rheoliad y Cyngor yn weithredol ledled yr Undeb Ewropeaidd, a'r dyddiad y daeth y Rheoliadau hyn i rym.

Effaith bosibl yr oedi hwn yw sut fyddai achosion o dorri'r gyfraith sy'n cael eu cynnwys o dan reolaethau swyddogol yn cael eu gorfodi. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu dull gorfodi ymarferol pwysig o ran gofynion Rheoliad y Cyngor sy'n uniongyrchol berthnasol ac amrywiol offerynnau cyfreithiol yr UE a domestig sy'n berthnasol ar draws y meysydd polisi sydd o dan reolaeth y rheolaethau swyddogol. Bydd lleihau cyfnod y bwlch gorfodi hwn yn sicrhau cysondeb rhwng gweithredwyr a chyrff gorfodi ledled y DU. Mae felly yn hanfodol bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, gan roi opsiynau gorfodi ychwanegol i gyrff gorfodi a sicrhau bod Cymru yn gyson â gweddill y DU, gan bod Gweinyddiaethau eraill y DU eisoes wedi cyflwyno eu deddfwriaeth gorfodi cytatebol.

Am y rhesymau uchod, nid oes modd cyflwyno'r Offeryn Statudol terfynol i graffu arno mewn pryd i ganiatáu'r cyfnod o 21 niwrnod.

Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal ar yr OS yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac â chyfraith yr UE, ond ni chafwyd ymatebion. Nid yw hynny'n syndod gan mai ar awdurdodau cymwys y bydd y Rheoliadau'n effeithio'n bennaf. Fel a nodwyd uchod mae Rheoliadau tebyg eisioes wedi'u gwneud yn holl weinyddiaethau eraill y DU. Amgaeir Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.